**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MD/00659/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@llyw.cymru

11 Rhagfyr 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 26 Tachwedd, yn rhoi gwybod imi am y ddeiseb gan Endaf Cooke a Gavin Owen ynglŷn ag adolygiad o Ryddhad Ardrethi i Fusnesau Bach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi busnesau. Caiff y cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach (SBRR) yng Nghymru ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae'r trothwyon ar gyfer rhoi rhyddhad wedi'u seilio ar sylfaen drethi Cymru a chyfran y busnesau bach yng Nghymru - y ddau gryn dipyn yn wahanol i'r hyn ydynt yn Lloegr. Oddeutu £22,000 yw'r gwerth ardrethol cyfartalog yng Nghymru; yn Lloegr mae oddeutu £33,000. Hefyd, caiff y system yn Lloegr ei hariannu'n rhannol drwy luosydd uwch ar gyfer busnesau mwy. Mae'n iawn fod ein system ardrethi a rhyddhad ni yn adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn.

Mae cynllun SBRR gwerth £100 miliwn Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i oddeutu 70,000 o dalwyr ardrethi, a mwy na'u hanner yn talu dim ardrethi o gwbl. Mae hyn yn hollol wahanol i Loegr. Hyd yn oed o dan y cynllun wedi'i ehangu yn Lloegr, dim ond tua thraean o'r rhai sy'n talu ardrethi sy'n talu dim ardrethi annomestig o gwbl.

Yn ddiweddar, cyhoeddais £23.6 miliwn yn ychwanegol i ehangu a gwella cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr am flwyddyn arall yn 2019-20, gan helpu siopau, bwytai, caffis a thafarnau.

Bydd y cynllun wedi'i ehangu yn mynd gryn dipyn yn bellach nag yn y blynyddoedd blaenorol, gan ddarparu cymorth i tua 15,000 o fanwerthwyr yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol o hyd at £50,000 a lleihau'r biliau ardrethi i sero ar gyfer eiddo manwerthu â gwerth ardrethol o hyd at £9,100.

Bydd awdurdodau lleol hefyd yn cael £2.4 miliwn yn ychwanegol i ddarparu rhyddhad ardrethi disgresiynol i fusnesau lleol a thalwyr ardrethi eraill a fyddai'n gweld yr effaith fwyaf. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddarparu i'r awdurdodau drwy setliad llywodraeth leol 2019-20.

Gyda'i gilydd, bydd yr estyniad hwn i gynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a'r cyllid ychwanegol ar gyfer rhyddhad ardrethi disgresiynol, ynghyd â'n cynllun parhaol ar gyfer Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach a chynlluniau rhyddhad eraill, yn cynnig cymorth amserol wedi'i dargedu i'r rhai sy'n talu ardrethi ym mhob cwr o Gymru.

Rwy'n parhau i edrych ar opsiynau ar gyfer diwygio trethi lleol yn y tymor hir a datblygu ein cynllun SBRR er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei dargedu i ddiwallu anghenion Cymru yn y ffordd orau. Ein bwriad yw mabwysiadu dull blaengar, teg a thryloyw o ymdrin â threthi lleol yng Nghymru, sy'n parhau i ddarparu cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol.

Yn gywir,

Mark.

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance